



**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF
PWYLLGOR TRWYDDEDU 2003**

Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu 2003 a gynhaliwyd Dydd Mawrth, 11 Mehefin 2019 am 4.30 pm ym Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypanydy CF40 2XX.

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Trwyddedu 2003 Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cyngorydd A Fox (Cadeirydd)

Y Cyngorydd D Williams Y Cyngorydd S Bradwick
Y Cyngorydd E Webster Y Cyngorydd T Williams
Y Cyngorydd L Jones Y Cyngorydd W Lewis
Y Cyngorydd S Morgans Y Cyngorydd A Cox

Swyddogion oedd yn bresennol

Ms L Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Diogelwch y Cyhoedd
Mr P Nicholls, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyfreithiol
Ms R Hope, Rheolwr Gwasanaeth Trwyddedu a Diogelu Iechyd
Mr G Black, Rheolwr Cymunedau Diogel a Phartneriaethau Strategol
Mr M Owen, Rheolwr trwyddedu Cynorthwyol

1 Ymddiheuriadau

Cafodd ymddiheuriadau am absenoldeb eu derbyn gan Gyngorwyr y Fwrdeistref Sirol S. Powderhill a P. Howe.

2 Datgan Buddiant

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

3 Deddf Hawliau Dynol 1998 a'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn

PENDERFYNWYD nodi pan fydd Aelodau'n ystyried y materion trwyddedu a chofrestru sydd ger eu bron, mae dyletswydd arnyn nhw i beidio â gweithredu mewn modd sy'n anghydnaws â'r confensiwn ar Hawliau Dynol a'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn.

4 Cofnodion

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gafodd ei gynnal ar 12 Mawrth 2019 yn adlewyrchiad cywir o'r cyfarfod.

5 Adolygiad o Ddeddf Trwyddedu 2003 ac o Ddeddf Gamblo 2005

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Diogelwch y Cyhoedd adroddiad

chwarterol i'r Pwyllgor. Roedd yr adroddiad yn trafod materion perthnasol mewn perthynas â Deddf Trwyddedu 2003 a Deddf Gamblo 2005, yn ogystal â materion atodol eraill sy'n codi o gyfrifoldebau'r Pwyllgor.

Nododd yr adroddiad fod gostyngiad wedi bod yn nifer yr Hysbysiadau Achlysuron Dros Dro (TENSs), sy'n ddisgwylidig ar gyfer adeg yma'r flwyddyn yn dilyn prysurdeb y Nadolig. Serch hynny, roedd nifer o Hysbysiadau Achlysuron Dros Dro wedi'u cyflwyno dros y Gwyliau Banc amrywiol, a chan fod yr haf yn agosáu, roedd cynnydd yn nifer yr achlysuron yn yr awyr agored, fel marchnadoedd awyr agored.

Adroddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth am ganlyniad cais a wrthwynebwyd a gafodd ei ystyried yn ystod y cyfnod, sef cais Chippy Plus. Penderfynodd yr Is-Bwyllgor wrthod y cais i amrywio'r drwydded safle. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth ei fod yn dal i ddisgwyl canlyniad un adolygiad, a oedd i'w gyflwyno ar 20 Mehefin 2019. Bydd canlyniad yr adolygiad yma yn cael ei adrodd i gyfarfod priodol nesaf y Pwyllgor Trwyddedu (yn rhinwedd ei swyddogaeth o dan Ddeddf Trwyddedu 2003).

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth yr Aelodau at adran 4.3 yr adroddiad lle mae arolygiadau o eiddo a thor rheolau'n cael eu hamlinellu. Roedd yr Aelodau'n falch o glywed bod 89% o safleoedd a oedd wedi cael eu harolygu yn cydymffurfio'n gyffredinol, a bod swyddogion wrthi'n datblygu cynlluniau gweithredu penodol er mwyn helpu deiliaid trwyddedau i gydymffurfio. Roedd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth yn gobeithio y byddai'r gwaith yn cynyddu'r gyfradd cydymffurfio ar gyfer y cyfnod adrodd nesaf.

Cyflwynodd y Swyddog drosolwg o'r gwaith a gafodd ei gyflawni gan y carfanau Trwyddedu ar y cyd â charfanau Trwyddedu'r Heddlu ledled Cwm Cynon, Cwm Rhondda a Thaf-elái yn ystod y cyfnod. Cafodd yr Aelodau wybod bod swyddogion wedi gweithio'n agos gyda thrwyddedai mewn perthynas ag achlysuron sydd ar y gweill, gan gynnwys Gŵyl Cwrw a Jin yn Nhreorci a 'Ponty's Big Weekend' ym Mhontypridd i sicrhau eu bod yn achlysuron diogel a llwyddiannus. Roedd yn dda gwybod bod nifer y bobl sy'n mynychu cyfarfodydd Pub Watch, a chyfrannu atyn nhw yn gadarnhaol, a bod nifer y cwynion a dderbyniwyd wedi gostwng. Roedd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth hefyd yn fodlon bod noson siopa cudd wedi'i chynnal ac nad oedd unrhyw alcohol wedi'i werthu i bobl dan 18 oed.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth wrth yr Aelodau fod yr Awdurdod Trwyddedu wedi cyfrannu at sefydlu gweithgor yn ddiweddar i drafod cyflwyno Canolfan Triniaeth am Alcohol ym Mhontypridd. Er bod y rhain yn drafodaethau cychwynnol, byddai'r ganolfan yn cael ei rheoli gan y GIG ar y cyfan, er mwyn lleihau'r pwysau ar adrannau damweiniau ac achosion brys. Roedd gan yr Aelodau ddiddordeb mewn dysgu rhagor am ddyddiadau posibl, a sicrhodd y swyddog y byddai diweddariadau pellach yn cael eu darparu yn y dyfodol agos.

Wrth drafod y Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus yng nghanol trefi Aberdâr a Phontypridd, cynghorodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod mwyafrif yr achosion wedi digwydd ym Mhontypridd. Dysgodd yr Aelodau fod 44 rhybudd wedi'u cyhoeddi hyd yma, ac roedd 5 o'r rheiny wedi'u cyfeirio at Heddlu De Cymru am fod yr achosion o dorcyfraith wedi parhau. Cwestiynodd un Aelod y gwahaniaeth rhwng Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus y Fwrdeistref Sirol a Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus penodol parciau Aberdâr a Phontypridd. Eglurodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod Gorchymyn Diogelu

Mannau Cyhoeddus y Fwrdeistref Sirol yn nodi ei bod hi'n drosedd yfed alcohol mewn manau cyhoeddus os yw'n achosi ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'r Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus penodol ar gyfer y parciau yn gwahardd yfed alcohol yn y ddau fan cyhoeddus yma. Os nad yw unigolyn yn ildio'i alcohol i Swyddogion Gorfodaeth, yna caiff ei weithredoedd eu hystyried yn drosedd. Wrth siarad am bryderon penodol ym mharc lleol yr Aelod, cynghorodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth mai'r cam cyntaf i'r Awdurdod Trwyddedu fyddai adolygu'r mater ac ymgymryd â gwaith gyda'r Garfan Nos Wener a'r Garfan Ymgysylltiad Ieuenctid, cyn ystyried gweithredu Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus penodol. Eglurwyd y byddai angen i swyddogion gasglu tystiolaeth berthnasol a fyddai'n dangos bod yr ardal yn profi problemau gwahanol i ardaloedd eraill wrth ystyried gweithredu Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus penodol. Enghraifft o hyn yw arolwg a gynhaliwyd yng Nghanol Trefi Aberdâr a Phontypridd, lle nododd trigolion nad oedden nhw'n teimlo'n ddiogel yn y parciau.

Cyn dod a'i sylwadau i ben, cynghorodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Pwyllgor bod yr Awdurdod Trwyddedu wrthi'n drafftio Datganiad Polisi Deddf Trwyddedu, sydd angen ei adnewyddu ym mis Ionawr 2020. Dywedodd y swyddog y byddai cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor yn cael ei gynnal ym mis Gorffennaf 2019 er mwyn rhoi digon o gyfle i ymgynghori ag Aelodau.

PENDERFYNWYD:-

- a) Nodi cynnwys yr adroddiad mewn perthynas â **Deddf Trwyddedu 2003** a;
- b) Nodi cynnwys yr adroddiad mewn perthynas â **Deddf Gambo 2005**.

6 Trafod cadarnhau'r cynnig isod yn Benderfyniad:-

PENDERFYNWYD bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

7 Trwyddedau a chofrestriadau a gyhoeddwyd o dan ddarpariaeth pwerau dirprwyedig ar gyfer y cyfnod 18.02.19 - 26.05.19:

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Diogelwch y Cyhoedd fanylion i'r Pwyllgor am drwyddedau a chofrestriadau a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod o 18 Chwefror, 2019 i 26 Mai, 2019.

Yn dilyn trafod, **PENDERFYNWYD** nodi cynnwys yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.50 pm

**Y Cynghorydd A Fox
Cadeirydd.**